



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gwella effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi pontio cyfiawn a Chymru wyrddach

Cynigion ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd

Dyddiad cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Ebrill 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Dyluniwyd iteriad cyfredol y Rhaglen Cartrefi Clyd i ddarparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref i aelwydydd incwm is sy'n ei chael hi'n anodd cynnal trefn wresogi foddhaol am gost fforddiadwy. Fe'i cyflwynwyd i ddechrau trwy ddau gynllun, y cynllun Arbed seiliedig ar ardal, a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2021 a'r cynllun Nyth a arweinir gan alw y disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2023. Rydym yn ymgynghori ar drefniadau ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar X Mawrth 2022. Gallwch ymateb ar-lein, trwy e-bost neu trwy'r post.

Ar-lein - Llenwch y ffurflen ar-lein ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru

E-bost - E-bostiwch eich sylwadau at:

FuelPovertyandEnergyEfficiency@gov.wales

Post - Cyflwynwch eich sylwadau yn ysgrifenedig i:

Tîm Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd
Trydydd Llawr Adain y Gogledd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth
Tîm Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ
E-bost: FuelPovertyandEnergyEfficiency@gov.wales

03000 251497

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UKGDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan contract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i gael 'dileu' eich data (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

DataProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Swydd Gaer

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhagair.....	2
Adran 1: Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir	3
Pwrpas ein Rhaglen Cartrefi Clyd.....	3
Y stori hyd yn hyn – rhaglenni tai presennol a rhaglenni wedi'u cynllunio.....	3
Ein cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.....	5
Newid yn yr Hinsawdd	6
Iechyd a llesiant.....	8
Cyfiawnder Cymdeithasol	9
Cenedlaethau'r dyfodol	9
Adran 2: Pam rydym ni'n ymgynghori?	10
Adran 3 – Cymhwysra i'r Rhaglen Cartrefi Clyd	11
Gwellu effeithlonrwydd ynni domestig ar gyfer aelwydydd incwm is.....	11
Annog effeithlonrwydd ynni cartref ar gyfer aelwydydd eraill.....	12
Adran 4 – Cyflawni'r Rhaglen Cartrefi Clyd.....	14
Mesurau effeithlonrwydd ynni cartref.....	14
Cyfle Cyllido	18
Targedau Perfformiad Ynni.....	19
Gwasanaethau cyngori.....	20
Sicrhau Ansawdd	21
Adran 5: Sgiliau a thwf gwyrdd	21
Adran 6: Deddfwriaeth	22
Camau nesaf	23
Crynodeb o gwestiynau ymgynghori.....	24

Rhagair

Ym mis Hydref, roeddwn yn falch o gyhoeddi ein Cynllun Sero Net Cymru cyn cynhadledd Newid Hinsawdd COP26 a COP Cymru. Mae adeiladu economi sy'n gryfach, yn wyrddach ac yn decach yn hanfodol wrth i ni barhau i wynebu'r heriau o ddiogelu ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Mae ein cartrefi yn chwarae rhan hanfodol yn ein bywydau. Yn draddodiadol maent wedi darparu hafan ddiogel i ymlacio rhag helbulon bywyd modern a lle i fwynhau cwmni ffrindiau a theulu. Mae dyfodiad y pandemig byd-eang wedi newid y berthynas hon i lawer, gyda rhai cartrefi yn dod yn lle gwaith ac i eraill, yn lle i ddiogelu neu addysgu ein plant. Beth bynnag yw'r rheswm, mae mwy ohonom yn treulio mwy o amser gartref.

Mae'r berthynas newydd sydd gennym gyda'n cartrefi yn golygu ein bod yn defnyddio mwy o ynni ar gyfer gwresogi a goleuo. Gwyddom hefyd o'r amcangyfrifon diweddaraf fod 155,000 o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd. Roedd 145,000 o aelwydydd eraill mewn perygl o fod mewn tlodi tanwydd. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf ac fel y manylir yn ein cynllun Sero New Cymru yn ddiweddar, mae ein cartrefi yn gyfrifol am 10% o'r holl allyriadau carbon yng Nghymru. Mae gweithredu eisoes wedi cychwyn trwy ein Rhaglen Cartrefi Clyd, Safon Ansawdd Tai Cymru, y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a rheoliadau adeiladu tynnach ond gallwn wneud mwy ac mae'n rhaid i ni wneud mwy.

Rhaid inni gyflymu cyflymder y newid. Rhaid inni weithredu nawr i leihau'r ynni sydd ei angen i gadw ein cartrefi yn gynnes yn y gaeaf ac yn oer yn yr haf. Rhaid inni leihau ein dibyniaeth ar losgi tanwydd ffosil a throsglwyddo i ffynonellau ynni carbon isel, glanach. Mae gormod o aelwydydd yng Nghymru yn gwario gormod o'u harian y gweithiwyd mor galed amdano i wresogi ac oeri eu cartrefi fwyfwy. Mae'r dewisiadau y mae llawer yn eu hwynebu, sef bwyta neu wresogi, yn annerbyniol mewn cymdeithas fodern. Mae'r ymchwydd cyfredol ym mhrisiau ynni cyfanwerthol byd-eang yn ddangosydd arall bod angen newid.

Dyma pam yr wyf yn ymgynghori ar iteriad nesaf ein Rhaglen Cartrefi Clyd a'r rôl y gall ei chwarae, nid yn unig yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ond wrth i ni ymdrechu i gyflawni ein targed sero net erbyn 2050. Dyma'r cyfle i bobl Cymru ddweud eich dweud ar sut rydych chi am i Lywodraeth Cymru gefnogi aelwydydd dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Ni all Llywodraeth Cymru gwrdd â'r heriau ar ei phen ei hun. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ar gyfer dyfodol mwy disglair, cynaliadwy a chyfiawn i'r cenedlaethau sy'n dilyn.



Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Adran 1: Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir

Pwrpas ein Rhaglen Cartrefi Clyd

Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r dirwedd gyfredol y mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn gweithredu oddi mewn iddi ynghyd â blaenoriaethau'r Llywodraeth y bydd angen i raglen y dyfodol fynd i'r afael â hwy.

Dylanwad cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru dros brisiau ynni ac incwm aelwydydd. Gwella effeithlonrwydd ynni yw lle gall Llywodraeth Cymru gael y dylanwad mwyaf ac felly pan lansiwyd y Rhaglen Cartrefi Clyd yn 2009/2010, roedd ein gweithgaredd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn aelwydydd incwm is trwy leihau'r ynni sydd ei angen i gadw cartrefi yn gynnes. Bu gostyngiadau mewn allyriadau ar hyd y ffordd wrth i inswleiddio a gwresogi mwy effeithlon ac effeithiol gael eu gosod, ond budd eilaidd oedd hynny.

Ers lansio'r Rhaglen Cartrefi Clyd, mae'r dirwedd wedi newid. Fel yr ydym wedi cydnabod yn ein [Cynllun Sero Net Cymru](#), mae cartrefi Cymru yn cyfrif am oddeutu 10% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Rhaid i unrhyw raglen yn y dyfodol gydbwyso a chysoni'r angen i wthio tuag at sero net, ac ar yr un pryd lleihau, ac yn y pen draw, dileu tlodi tanwydd difrifol neu barhaus cyn belled ag y gallwn yn ymarferol erbyn 2035.

Wrth i ni barhau i frwydro yn erbyn y pandemig coronafeirws byd-eang, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i egwyddorion craidd adeiladu economi sy'n decach, yn wyrddach ac yn gryfach i bobl Cymru. Gall pawb gyfrannu at ein hymdrech genedlaethol i gwrdd â her newid yn yr hinsawdd a gall pawb yn rhesymol ddisgwyl byw mewn cartref gweddus, yn rhydd o'r risg o fyw mewn tlodi. Dim ond trwy sicrhau pontio cyfiawn i wresogi carbon isel fforddiadwy i bob aelwyd yng Nghymru y gellir cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Gellir cyflawni hyn trwy wella effeithlonrwydd ynni a thermol ein cartrefi a lleihau ein dibyniaeth ar losgi tanwydd ffosil yn y cartref. Dyma'r pwrpas arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd.

Y stori hyd yn hyn – rhaglenni tai presennol a rhaglenni wedi'u cynllunio

Mae bron i 1.4 miliwn o aelwydydd yng Nghymru yn ôl [Arolwg Cyflwr Tai Cymru \(WHCS\) 2017-18](#). Adeiladwyd oddeutu 26% o'r holl aelwydydd cyn 1919, gyda 25% yn cael eu hadeiladu ar ôl 1980. Perchen-feddianwyr 69% o'r holl aelwydydd, a bu cynnydd yng nghanran yr anheddau ar rent preifat (13%) ers yr arolwg cyflwr tai diwethaf a gynhaliwyd yn 2008.

Mae cartrefi yng Nghymru wedi dod yn sylweddol fwy effeithlon o ran ynni dros y degawd diwethaf¹, gyda thai cymdeithasol â'r ganran uchaf o anheddau ym Mandiau C neu uwch y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Mae fflatiau'n fwy effeithlon o ran ynni na thai; yn y WHCS, roedd gan 55% o fflatiau Fand C EPC ac uwch o'i gymharu â 25% o dai. Mae anheddau mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn llai effeithlon o ran ynni nag anheddau mewn ardaloedd trefol. Mae'r mwyafrif o anheddau yng Nghymru (82%) yn defnyddio nwy i wresogi eu cartrefi.

¹ [Arolwg Cyflwr Tai Cymru \(effeithlonrwydd ynni anheddau\): Ebrill 2017 i Fawrth 2018 | LLYW.CYMRU](#)

Ers ei lansio yn 2009, buddsoddwyd mwy na £394m trwy ein Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r buddsoddiad hwn wedi gwella effeithlonrwydd ynni mwy na 67,100 o aelwydydd perchenfeddianwyr a chartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat. Mae mwy na 160,800 o bobl wedi derbyn cyngor effeithlonrwydd ynni trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd ers lansio'r llinell gyngor yn 2011.

Yn ystod 2020/21, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £20.1m yng [nghynllun Nyth](#), gyda 100% o osodiadau wedi'u cwblhau gan osodwyr yng Nghymru, gan gynnwys 23 o brentisiaid yn gweithio ar y cynllun. Darparodd Nyth gyngor diduedd am ddim i 15,557 o aelwydydd a'u cyfeirio at ystod o wasanaethau cymorth. Derbyniodd 4,559 o'r 15,557 o aelwydydd becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim fel system gwres canolog, boeler neu inswleiddio. Amcangyfrifir bod y gwelliannau hyn wedi arbed £305 ar gyfartaledd i aelwydydd ar eu biliau ynni blyneddol. Nododd gwiriadau hawl i fudd-daliadau gynnydd posibl o dros £2,000 ar gyfartaledd mewn incwm aelwyd.

Yn ogystal, arweiniodd buddsoddiad cyfun Llywodraeth Cymru ac Ewrop o £15.7m yn y [cynllun Arbed](#) at wella 1,032 o gartrefi trwy 22 cynllun mewn 12 ardal Awdurdod Lleol yn gosod 5,050 o fesurau. Mae'r gwelliannau hyn yn arbed amcangyfrif ar gyfartaledd o £327 i dalwyr biliau ar eu biliau ynni blyneddol.

Mae tri deg o ddarparwyr tai cymdeithasol eisoes wedi derbyn mwy na £19m mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r [Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio](#), a gyflwynwyd yn 2019/20. Darparwyd £50m yn 2021/22 ac ymrwymwyd £150m arall i'r rhaglen dros y tair blynedd nesaf, a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol ledled Cymru. Bydd y broses o ôl-osod y cartrefi llwybr tai hyn yn ein galluogi i 'brofi a dysgu', wrth asesu'r cartrefi hyn a'r mesurau sy'n ofynnol i alluogi datgarboneiddio cartrefi ledled Cymru. Bydd y rhaglen hefyd yn cefnogi datblygiad cadwyn cyflenwi a gweithlu carbon isel Cymru.

Rhaid diweddarau a chadw holl dai cymdeithasol mewn cyflwr da. Mae Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol â thai cyngor yn gyfrifol am fodloni gofynion a nodir yn [Safon Ansawdd Tai Cymru](#). Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd [Gwerthusiad crynodol o Safon Ansawdd Tai Cymru \(crynodeb\)](#). Gwnaeth yr adroddiad argymhellion ynghylch iteriad nesaf y safonau a gymhwysir i dai cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys dull fesul cam o ddatgarboneiddio. Bydd iteriad nesaf Safon Ansawdd Tai Cymru yn canolbwyntio ar gynhesrwydd fforddiadwy a lleihau carbon. Disgwylir i ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Safonau Ansawdd Tai nesaf Cymru ddechrau yng ngwanwyn 2022.

Mae tai yn y sector rhentu preifat yn ddarostyngedig i safonau effeithlonrwydd ynni a osodir gan Lywodraeth y DU. Ar ddiwedd 2020, awgrymodd [ymgyngoriad Llywodraeth y DU ar safonau effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat](#) gyfres o gynigion polisi tuag at sicrhau gwell effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat domestig.

Roedd hyn yn cynnwys y senario polisi a ffafirir gan Lywodraeth y DU o fynnu bod 'tenantiaethau newydd' yn cyrraedd Band C (EPC) o 1 Ebrill 2025 a 'phob tenantiaeth' i gyrraedd Band C (EPC) erbyn Ebrill 2028. Ar adeg ysgrifennu, roedd Llywodraeth y DU yn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr [ymgyngoriad](#).

Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i'r [Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni](#). Disgwylir ymateb Llywodraeth y DU yn gynnar yn 2022. Trwy'r cynllun £4bn hwn, disgwylir buddsoddiad parhaus i dargedu aelwydydd incwm isel, bregus a thlawd o ran tanwydd rhwng 2022 a 2026. Disgwylwn i'r cynllun gynnig mwy o gefnogaeth ac ôl-osod dyfnach i'r cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni, a'i gwneud yn ofynnol i gartrefi fodloni gofynion effeithlonrwydd ynni lleiaf newydd.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn datblygu cynigion a fydd yn berthnasol yng Nghymru, a ddyluniwyd i annog [gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref trwy fenthycwyr ar gyfer aelwydydd sy'n gallu talu](#). Mae ymgynghoriad Llywodraeth y DU a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2021 yn nodi ystod o gynigion a allai wella perfformiad ynni eiddo ar forgais, a sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau. Mae mentrau eraill sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU, a fydd ar gael i aelwydydd yng Nghymru, yn cynnwys y [Grant Uwchraddio Boeleri](#). Bydd cyllid o £5,000 ar gael o Ebrill 2022 i annog perchnogion tai i osod systemau gwresogi carbon isel mwy effeithlon. Mae'r grantiau hyn yn golygu y gall pobl sy'n dewis gosod pwmp gwres dalu swm tebyg a phetaent yn gosod boeler nwy traddodiadol.

Ein cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd

Er gwaethaf lleihau lefelau a amcangyfrifwyd o ran tlodi tanwydd o fwy na hanner rhwng 2008 a 2018, [awgrymodd amcangyfrifon tlodi tanwydd](#) ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018:

- Roedd 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae hyn gyfwerth â 12% o'r holl gartrefi yng Nghymru;
- Roedd aelwydydd yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o fod yn dlawd o ran tanwydd, a 20% o'r rhain yn byw mewn tlodi tanwydd;
- Roedd 50% o'r rheiny yn byw mewn tlodi tanwydd yn aelwydydd person sengl heb blant;
- Mae aelwydydd mewn eiddo hŷn yn fwy tebygol o fod yn dlawd o ran tanwydd. Roedd 20% o aelwydydd yn byw mewn anheddau cyn-1919 yn dlawd o ran tanwydd.
- Roedd 21% o aelwydydd yn byw mewn eiddo â walïau solet heb eu hinswleiddio yn dlawd o ran tanwydd, ac roedd 39% o bobl yn byw mewn eiddo heb wres canolog yn dlawd o ran tanwydd.
- Roedd 43% o aelwydydd mewn eiddo ag effeithlonrwydd ynni gwaelach (Bandiau F a G EPC) yn dlawd o ran tanwydd, o gymharu â 5% o aelwydydd yn byw mewn eiddo ym mandiau B i C.

Mae rhagamcanion newydd o dlodi tanwydd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd a chânt eu cyhoeddi erbyn Mawrth 2022. Mae'r asesiadau diweddaraf a gyhoeddwyd gan [National Energy Action](#) yn awgrymu y bydd 22,500 o aelwydydd eraill yng Nghymru yn profi tlodi tanwydd y gaeaf hwn.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein [cynllun](https://gov.wales/tackling-fuel-poverty-2021-2035.html) i fynd i'r afael â thlodi tanwydd 2021-2035. <<https://gov.wales/tackling-fuel-poverty-2021-2035.html>> Mae gan ein cynllun tlodi tanwydd dargedau clir, sy'n cwrdd â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000. Y targedau yn y cynllun yw, erbyn 2035:

- Amcangyfrifir nad oes unrhyw aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Amcangyfrifir nad yw mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw un adeg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Bydd nifer yr holl aelwydydd "sydd mewn perygl" o syrthio i dlodi tanwydd wedi mwy na haneru ar sail amcangyfrif 2018.

Yn ei [adolygiad tirwedd ar dlodi tanwydd](#) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, cydnabu Archwilio Cymru mai gwella effeithlonrwydd ynni domestig yw'r unig ymyrraeth sy'n gyfan gwbl o dan reolaeth Llywodraeth Cymru yn ei hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Cyhoeddwyd adolygiad pellach i [iteriad cyfredol y Rhaglen Cartrefi Clyd](#) gan Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2021. Mae canfyddiadau ac argymhellion y ddau adroddiad wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi llywio'r ymgynghoriad hwn.

Newid yn yr Hinsawdd

[Y Pwyllgor Newid Hinsawdd \(CCC\)](#) yw cynghorwyr statudol Llywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd. Ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaethant gyhoeddi dau adroddiad, yn asesu cynnydd ar leihau allyriadau hyd yma a rhoi cyngor i Weinidogion ar dargedau hinsawdd Cymru rhwng nawr a 2050. Gosododd y Senedd 'sero net' mewn rheoliad ym mis Mawrth 2021 (Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021). Darparodd [Adroddiad Cyngor: Y Llwybr i Gymru Sero Net](#) mis Rhagfyr y CCC argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y camau sydd eu hangen yng Nghymru, gan gynnwys pecyn polisiau 'llwybr cytbwys', i gyflawni ein targedau.

Mae cyngor y CCC yn gweld y gostyngiadau cyflymaf mewn allyriadau dros y cyfnod 2025 i 2035. Cyn 2025, mae marchnadoedd mwy newydd fel gwresogi carbon isel yn dal i gynyddu o lefelau isel, felly mae'r potensial ar gyfer defnyddio ar raddfa fawr ac felly lleihau allyriadau yn gyflym yn fwy cyfyngedig. Maent yn argymhell diddymu gwerthiannau boeleri nwy domestig yn raddol erbyn 2033 a boeleri olew domestig erbyn 2028.

Ar 28 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [Cynllun Sero Net Cymru](#), sy'n canolbwyntio ar Gyllideb Carbon 2 (2021-2025). Cafodd Cynllun Sero Net Cymru ei lywio gan gyngor y CCC, ond mae ychydig yn wahanol iddo. Mae'n cynnwys camau i'w cymryd yn gynnar yn y ddegawd hon i ddatgarboneiddio cartrefi a pharatoi ar gyfer gostyngiadau pellach mewn allyriadau. Yn y Cynllun rydym yn disgrifio sut y byddwn yn cwrdd â'n targedau cyfreithiol ar gyfer Cyllideb Carbon 2, a sut y bydd ein gweithredoedd yn ein gosod ar lwybr ar gyfer cyflawni allyriadau sero net yng Nghymru erbyn 2050. Ym mhennod adeiladau Cynllun Sero Net Cymru, rydym yn trafod:

- Effeithlonrwydd Ynni – Gosod safonau heriol ar gyfer adeiladau newydd, ac eiddo presennol, gyda'r sector tai cymdeithasol yn arwain y ffordd;
- Gwres Carbon Isel – Dileu'n raddol ffynonellau gwres tanwydd ffosil;

- Newid ymddygiad a lleihau galw – Archwilio sut y gallai newidiadau ymddygiadol a chymdeithasol arwain at lai o alw ac effeithlonrwydd ynni o ran offer.

Bydd ein prif ffocws rhwng 2021 a 2025 ar gyfer cartrefi presennol Cymru ar optimeiddio eu heffeithlonrwydd thermol ac ynni. Drwy ddefnyddio ein model ôl-osod er mwyn optimeiddio, byddwn yn gwella lefelau aerdyndra i'r eithaf, yn cael gwared ar bontydd thermol, ac yn gwella lefelau inswleiddio, ynni haul ac awyru naturiol i'r eithaf, gan leihau faint o wres sy'n cael ei golli a sicrhau bod adeiladwaith cartrefi yn ddiddos ac yn barod ar gyfer egwyddorion Adeiladwaith yn Gyntaf.

Rydym yn defnyddio dull fesul cam gan ddefnyddio buddsoddiad yn y sector tai cymdeithasol i arwain y ffordd ar gyfer rhaglenni adeiladu newydd ac ôl-osod. Ni fyddwn yn gwrthio aelwydydd i dlodi tanwydd ond yn hytrach yn codi aelwydydd allan ohono trwy ganolbwyntio ar ddull adeiladwaith yn gyntaf wedi'i ategu gan newidiadau ymddygiad i arbed arian i bobl, lleihau ynni a charbon.

Dylid asesu cartrefi unigol gyda phasbortau adeiladu yn nodi eu taith i garbon sero a'u hôl-osod mewn ffordd bwrpasol i leihau allyriadau. Yn y Cynllun, rydym wedi ymrwymo i ehangu'n raddol ein dull ôl-osod er mwyn optimeiddio y tu hwnt i gartrefi cymdeithasol, i'r sector rhentu preifat ac yn y pen draw i gartrefi perchen-feddianwyr.

Yn nhrydydd asesiad risg newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, amlygwyd mater dyluniad cartrefi i gwrdd â'r her newid yn yr hinsawdd². Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwella dyluniad ar gyfer adeiladau a safonau newydd ochr yn ochr â chymhellion cynyddol ar gyfer ôl-osod fel rhan o Reoliadau Adeiladu newydd.

Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu yw'r modd a ddefnyddiwn i reoleiddio ar gyfer safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol mewn anheddau newydd. Y llynedd, nododd Llywodraeth Cymru gynigion rheoleiddio adeiladu i gynyddu safonau effeithlonrwydd ynni yn sylweddol ar gyfer pob cartref newydd. Nododd [ymateb y Llywodraeth](#) y penderfyniad i gyflwyno gostyngiad o 37% mewn allyriadau carbon ar gyfer anheddau newydd (o'i gymharu â'r safonau cyfredol) i ddod i rym o 2022. Yn ogystal, bydd angen paratoi pob cartref newydd ar gyfer y dyfodol, er mwyn ei gwneud yn haws i ôl-osod systemau gwresogi carbon isel.

Bwriad y gostyngiad o 37% yw gweithio fel cam tuag at y newidiadau Rhan L nesaf sydd i ddod yn 2025, pan ddisgwylir y dylai cartrefi newydd gynhyrchu o leiaf 75% yn llai o allyriadau CO₂ na'r rhai sydd wedi'u hadeiladu i'r gofynion cyfredol. Dyluniwyd ein gweledigaeth ar gyfer safon Rhan L 2025 i symud i ffynonellau gwres carbon isel, fel pymphiau gwres, ar gyfer gwresogi a dŵr poeth. Mae hyn yn golygu y bydd adeiladau newydd a godir i'r safon yn gallu dod yn garbon niwtral dros amser wrth i'r grid trydan a rhwydweithiau gwres ddatgarboneiddio. Mae'r rhybudd cynnar hwn yn bwysig er mwyn caniatáu i'r diwydiant gynyddu capasiti a sgiliau yn barod ar gyfer 2025.

² <https://www.ukclimaterisk.org/wp-content/uploads/2021/06/CCRA-Evidence-Report-Wales-Summary-Final.pdf>.

Fel Llywodraeth, rydym eisoes wedi cymryd camau i sicrhau bod tai cymdeithasol yn arwain y sector wrth dreialu atebion tai carbon isel cyn 2025. Roedd y Rhaglen Tai Arloesol wedi ymrwymo £155m o gyllid dros bedair blynedd rhwng 2017/18 a 2020/21, tuag at 64 o ddatblygiadau tai rhent cymdeithasol carbon isel a charbon sero ar draws Cymru. Roedd yn darparu cyllid tuag at adeiladu 2,000 o gartrefi arloesol newydd. Mae'r rhaglen wedi nodi materion capasiti yn ogystal â bwlch gwybodaeth a sgiliau ar draws y sector y bydd angen mynd i'r afael ag ef er mwyn i'r sector symud tuag at atebion tai carbon isel.

Mewn perthynas ag anheddau presennol, cynhaliwyd [ymgyngoriad](#) ar wella safonau Rhan L pan wneir gwaith adeiladu (e.e. estyniad newydd) ar anheddau presennol a chyhoeddwyd ymateb gan y Llywodraeth ym mis Hydref 2021.

Ymhlith y newidiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad, a gyflwynir ddiwedd haf 2022, mae mesurau effeithlonrwydd ynni megis gwella'r safonau perfformiad ar gyfer adeiladwaith a gwasanaethau adeiladu wrth wneud gwaith adeiladu cymwys, a gofyn am fesur effeithlonrwydd ynni ychwanegol (e.e. system adfer gwres nwy fflw) lle mae boeler cyfunol nwy wedi'i osod mewn annedd sy'n bodoli eisoes.

Iechyd a Llesiant

Mae'r [mynegai marwolaethau gormodol yn y gaeaf](#) diweddaraf ar gyfer Cymru yn sylweddol uwch na phob cyfnod ers 1991 i 1992 ac eithrio 2017 i 2018. Er bod newid yn yr hinsawdd yn debygol o leihau'r peryglon iechyd o oerfel, rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag oerfel yn gostwng ond ychydig yn unig oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio a hynny'n cynyddu nifer y bobl agored i niwed sydd mewn perygl. Mae angen cymryd mesurau pellach yn ystod y pum mlynedd nesaf i fynd i'r afael â chartrefi oer a lleihau effeithiau oerfel ar iechyd, hyd yn oed gyda hinsawdd sy'n cynhesu.

Yn adroddiad 2016 '[Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Lles Cynaliadwy ar gyfer Pobl Cymru](#)', mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod tai o ansawdd gwael, gan gynnwys materion fel llwydni, cynhesrwydd ac effeithlonrwydd ynni gwael, yn gysylltiedig ag afiechyd corfforol a meddyliol. Yn yr un flwyddyn, [ailgyhoeddodd NICE safonau ansawdd](#) ynghylch atal marwolaethau dros y gaeaf a salwch sy'n gysylltiedig â byw mewn cartref oer. Wrth egluro'r angen am y safonau newydd, nododd NICE bod tywydd oer yn cael effaith uniongyrchol ar nifer yr achosion o drawiad ar y galon, strôc, clefyd anadlol, fflw, cwympiadau ac anafiadau a hypothermia. Mae NICE wedi nodi'n glir y bobl sy'n agored i broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â chartrefi oer.

Mae amddiffyn pobl fregus rhag [gwres gormodol yn ystod misoedd yr haf](#) yn dod yn broblem fwyfwy cyffredin. Yn ystod haf 2020 bu tri chyfnod a oedd yn cwrdd â diffiniad tywydd poeth Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE). Roedd cyfanswm cronos y marwolaethau gormodol pob-achos yn haf 2020 yn gymharol â'r hyn a welwyd yn ystod digwyddiad tywydd poeth pan-Ewropeaidd 2003 a digwyddiad tywydd poeth 2006 lle gwelwyd 2,234 a 2,323 marwolaeth ormodol yn Lloegr yn y drefn honno. Nid oedd data i Gymru ar gael adeg cyhoeddi.

Trwy weithgaredd gwresogi, mae ein cartrefi yn ffynhonnell sylweddol o ronynnau a llygryddion eraill sy'n effeithio ar ansawdd aer yn y cartref a thu allan. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod ansawdd aer gwael yn cyfrannu at ddisgwyliad oes is, gan gyfateb i'r hyn sydd gyfwerth â rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau yng Nghymru bob

blwyddyn³. Mae ansawdd aer gwael yn cael effaith arbennig o amlwg ar iechyd y rhai mwyaf agored i niwed - fel yr ifanc iawn neu'r hen iawn, neu bobl â chlefydau cardiofasgwlaidd a chyflyrau anadlol fel asthma a Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD).

Yn gysylltiedig â'r effaith y mae ansawdd aer yn ei chael ar iechyd a llesiant, mae llygredd aer yn cael effaith negyddol ddwys ar ein byd naturiol. Mae mwy o nitrogen a llygryddion yn yr atmosffer yn ffactor blaenllaw yn y bygythiad o ddifodiant i blanhigion ac anifeiliaid Cymru.

Rhaid i ddyluniad y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf fynd i'r afael â'r risgiau hyn a'r canlyniadau ar ein hiechyd a'n llesiant.

Cyfiawnder Cymdeithasol

Fel y nodwyd yn ein [cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd 2021-2035](#) ac a grynhowyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo at egwyddorion dull gweithredu 'adeiladwaith yn gyntaf' ac 'y gwaethaf yn gyntaf' o ôl-osod tai, ond mae'n dymuno dilyn yr egwyddorion hyn mewn ffordd sy'n gyfiawn a theg. Mae hynny'n golygu nad yw cost y pontio yn cael ei ysgwyddo gan y tlotaf a'r mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas – ac mae hynny'n debygol o olygu cydbwyso'r gwahanol egwyddorion sydd ar waith. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori ymhellach yn nogfen y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021, a'r [diweddariad](#) dilynol ym mis Rhagfyr.

Cenedlaethau'r dyfodol

Ym mis Gorffennaf 2021, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru – Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: yr her datgarboneiddio.

<https://www.futuregenerations.wales/resources_posts/homes-fit-for-the-future-the-retrofit-challenge/> Mae'r adroddiad yn awgrymu bod yn rhaid gweld buddsoddiad mewn ôl-osod er mwyn optimeiddio ar draws tai Cymru yn erbyn cefndir o fuddion sylweddol i lesiant, arbed costau mewn gwasanaethau a thwf economaidd lleol. Mae gan fuddsoddiad mewn miliynau o gartrefi'r potensial i gynhyrchu enillion economaidd mawr ynghyd â lleihau ein hallyriadau a lefelau tlodi tanwydd.

Mae'r adroddiad yn awgrymu y gallai rhaglen datgarboneiddio tai yng Nghymru greu £19.32bn mewn CMC ychwanegol, £3.54bn o fuddion treth net a 26,500 o swyddi newydd yng Nghymru erbyn 2030, gan helpu i wneud iawn am effaith economaidd a cholledion swyddi yn sgil y pandemig diweddar. Gallai'r rhaglen hefyd arbed £8.3bn mewn biliau ynni a chreu £4.4bn mewn buddion iechyd a buddion amgylcheddol erbyn 2040 gan helpu i roi mwy o arian yn ôl i economïau lleol ledled Cymru a lleihau'r straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig yn ystod y gaeaf.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o fewn y gadwyn gyflenwi gyfredol a allai effeithio ar weithgaredd ôl-osod tai yn y tymor byr. Roedd hwn yn fater a amlygwyd yn [adroddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol y DU](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi ar Gynllun Talebau Cartrefi Gwyrdd Llywodraeth y DU.

³ <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/environmental-public-health/air-quality/air-pollution-and-health-fact-sheet/>

Adran 2: Pam rydym ni'n ymgynghori?

Mae'n bwysig bod iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn bodloni nifer o flaenoriaethau polisi. Mae'n hanfodol sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng datgarboneiddio tai a diogelu aelwydydd incwm is rhag byw mewn cartref oer.

Er gwaethaf brys yr argyfwng hinsawdd, ni allwn wthio mwy o bobl i mewn i dlodi tanwydd o ganlyniad i'n ffocws ar atgyweirio adeiladwaith adeiladau ac osgoi datrysiadau tanwydd ffosil. Er enghraifft, ar gyfer aelwydydd sy'n byw gyda system wresogi sydd wedi torri neu sy'n aneffeithlon, bydd gosod boeler nwy effeithlon yn darparu arbediad carbon, yn gwella cysur a dylai helpu i leihau eu biliau tanwydd. Mae yna lawer o gartrefi lle byddai symud i fathau eraill o wresogi nawr yn trechu'r amcan o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a hynny am resymau amser ac arian. Mae angen i gynhyrchu trydan fod yn lanach ac yn rhatach cyn i bob aelwyd drosglwyddo i wresogi trydan.

Ein disgwyliad yw y bydd dewisiadau amgen gwresogi carbon isel, fel pypiau gwres, yn dod yn sylweddol rhatach ac yn fwy hygyrch erbyn diwedd y degawd. Felly, gall yr amser gorau i amnewid boeler nwy ddigwydd mewn ychydig flynyddoedd pan fydd cadwyn gyflenwi gryfach a phan fydd costau wedi gostwng. Efallai y bydd boeleri nwy effeithlon sy'n barod am hydrogen yn parhau i fod yr ymateb sero net priodol ar gyfer tlodi tanwydd am gryn amser nes bod dewis arall addas ar gael.

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gydbwyso'r angen i leddfu tlodi tanwydd a chreu cenedl sy'n gyfiawn yn gymdeithasol â'r angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, neu a ddylai un o'r amcanion hyn gael blaenoriaeth yn y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd?

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae nifer o fentrau'n cael eu datblygu a'u cyflawni gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'n bwysig bod y Rhaglen Cartrefi Clyd yn parhau i wneud cyfraniad nodedig ond cyflenwol.

Cwestiwn 2 – Beth yw'r bwlch yn y ddarpariaeth y credwch y dylai'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf ei lenwi er mwyn sicrhau mwy o fudd i Gymru?

Cwestiwn 3 – Yn 'Cartrefi addas ar gyfer y dyfodol, yr her ôl-osod', amcangyfrifodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fuddsoddiad o £14.75bn dros y degawd nesaf i ddileu tlodi tanwydd a chwrdd â'n huchelgeisiau sero net. Pa awgrymiadau sydd gennych chi o ble y dylai'r cyllid ar gyfer y lefel hon o fuddsoddiad ddod?

Adran 3 – Cymhwysra i'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Yn yr adran hon, rhoddir ystyriaeth i'r gofynion cymhwysra y mae'n rhaid i ddeiliaid tai eu bodloni er mwyn elwa ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Ar hyn o bryd mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn targedu aelwydydd incwm is yn y sectorau rhentu preifat a pherchen-feddianwyr, sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi tanwydd. Yn yr adran hon, rhoddir ystyriaeth i sut y gellir gwella'r meini prawf cymhwysra cyfredol i gefnogi aelwydydd incwm is yn well, sef cartrefi y gall mesurau effeithlonrwydd ynni cartref eu codi allan o dlodi tanwydd. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r cyfraniad y gallai'r Rhaglen Cartrefi Clyd ei ddarparu i annog aelwydydd, sy'n gallu gwneud cyfraniad ariannol, i gefnogi'r newid i wresogi carbon is wrth inni symud ymlaen tuag at ddatgarboneiddio'r holl dai yng Nghymru.

Gwella effeithlonrwydd ynni domestig ar gyfer aelwydydd incwm is

Gall deiliaid tai sy'n byw mewn annedd preifat sy'n cwrdd â meini prawf cymhwysra cyfredol y Rhaglen Cartrefi Clyd dderbyn pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni cartref, heb unrhyw gost. Penderfynir ar y mesurau sy'n briodol ar gyfer eiddo yn dilyn asesiad tŷ cyfan a gynhelir gan asesydd ynni cymwys. Mae aelwydydd yn gymwys ar gyfer un cais llwyddiannus yn unig i'r rhaglen.

Mae'r meini prawf cyfredol yn cynnwys aelwydydd sy'n byw ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm mewn eiddo preifat neu ar rent preifat gyda thystysgrif perfformiad ynni cyfredol (EPC) o E, F neu G.

Mae'r budd-daliadau cyfredol sy'n gysylltiedig ag incwm y mae cymhwysra'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn seiliedig arnynt yn cynnwys:

- Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Tai (pob un fel y'i diffinnir yn Rhan VII o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992);
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (fel y'i diffinnir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992);
- Credyd Pensiwn y Wladwriaeth (fel y'i diffinnir yn Neddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002);
- Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant (pob un fel y'i diffinnir yn Neddf Credydau Treth 2002) ar yr amod nad yw incwm yr ymgeisydd yn uwch na'r trothwy incwm perthnasol ym mhob achos;
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (fel y'i diffinnir yn Neddf Diwygio Lles 2007); a (f) Credyd Cynhwysol (fel y'i diffinnir yn Neddf Diwygio Lles 2012)

Ehangodd y Peilot Cyflyrau Iechyd yn 2017 y meini prawf cymhwysra statudol presennol a nodir uchod i gynnwys pobl â chyflwr iechyd rhagnodedig, sy'n byw ar drothwy incwm is neu'n is mewn cartref D EPC neu gyfradd is. Mae'r cymhwysra ar gyfer y cynllun peilot, yn cynnwys cyflyrau a gydnabyddir gan y [Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\)](#) fel rhai sydd mewn mwy o berygl o afiechyd a marwolaeth gynamserol o fyw mewn cartref oer:

- Clefyd anadlol (heintiau anadlol, broncoddarwasgiad mewn asthma, a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint fel y'u cynhwysir ar hyn o bryd yn y peilot cyfredol)
- Clefyd cardiofasgwlaidd (gan gynnwys strôc a thrawiad ar y galon)
- Cyflyrau iechyd meddwl (gan gynnwys iselder, gorbryder, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), seicosis a sgitsoffrenia, anhwylderau deubegynol a mania, dementia)

Roedd y peilot Cyflyrau Iechyd hefyd yn galluogi'r rhai 75 oed a hŷn gyda chynilion o ddim mwy na £16,000 i wneud cais am gymorth. [Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn awgrymu bod marwolaethau gormodol yn y gaeaf yn fwy cyffredin yn y grŵp oedran hwn.

Roedd y newidiadau a gyflwynwyd o dan delerau'r Peilot Cyflyrau Iechyd yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i aelwydydd incwm is ychwanegol, a oedd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi tanwydd. Cyflwynodd drothwy incwm is i aelwydydd nad oeddent yn derbyn budd-daliadau prawf modd, ac estynnodd y sgôr effeithlonrwydd ynni i gartref â sgôr D EPC ar gyfer aelwydydd lle mae rhai cyflyrau iechyd yn amlwg. Mae'r cynllun peilot yn cefnogi aelwydydd incwm is, nad ydynt ar fudd-daliadau prawf modd, sydd mewn perygl o afiechyd y gellir ei osgoi ac sy'n gwaethygu trwy fyw mewn cartref oer.

Mae rhanddeiliaid wedi dadlau y dylid ymestyn y meini prawf cymhwysra cyfredol i sicrhau y gall yr aelwydydd mwyaf anghenus gael gafael ar gymorth i wella eu heffeithlonrwydd ynni cartref trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Awgrymwyd bod Llywodraeth Cymru yn ehangu'r meini prawf cymhwysra cyfredol i gynnwys aelwydydd:

- Byw mewn cydweithrediaeth dai (deiliadaeth hunangynhwysol neu a rennir);
- Gydag eiddo â sgôr EPC D neu is;
- Yn derbyn Cynllun Iawndal y Lluedd Arfog neu fuddiolwyr Pensiwn Rhyfel;
- Yn gymwys i gael taliadau o dan y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Clyd, neu
- Aelwyd incwm is nad yw'n derbyn budd-daliadau prawf modd.

Cwestiwn 4 – Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn brif ffocws y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf?

Cwestiwn 5 – Ar ba lefel y dylid gosod trothwy(on) incwm a chynilion aelwydydd, y byddai aelwydydd drosto/drostynt yn cael eu heithrio rhag mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a gyflenwir heb unrhyw gost i ddeiliad y tŷ?

[Annog effeithlonrwydd ynni cartref ar gyfer aelwydydd eraill](#)

Ni all aelwydydd nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysra cyfredol gael gafael ar gymorth ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni cartref trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd gyfredol. Mae [cynllun Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd 2021-2035](#) yn cydnabod y gall aelwydydd sy'n cydbwyso eu sefyllfa ariannol yn ofalus drosglwyddo i mewn ac allan o dlodi tanwydd yn gymharol gyflym. O'r aelwydydd sy'n elwa o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref trwy'r Cynllun Nyth cyfredol, mae tua hanner mewn tlodi tanwydd pan ddefnyddir mesur Llywodraeth Cymru. Rydym o'r farn ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad bod aelwydydd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra, os nad mewn tlodi

tanwydd, mewn perygl o lithro i dlodi tanwydd pe bai newidiadau cymedrol i amgylchiadau yr aelwyd yn digwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu aelwydydd “mewn perygl” rhag syrthio i dlodi tanwydd.

Er mwyn cyflawni ein targedau sero net a thlodi tanwydd, fodd bynnag, mae'r cwestiwn yn codi a ddylid ehangu'r Rhaglen Cartrefi Clyd ymhellach i ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni cartref i berchen-feddianwyr a thenantiaid yn y sector rhentu preifat, y tu allan i'r meini prawf cymhwysra cyfredol neu arfaethedig, sy'n gallu gwneud cyfraniad ariannol at welliannau effeithlonrwydd ynni a wneir i'w cartrefi.

Gallai Llywodraeth Cymru, er enghraifft, annog mwy o berchen-feddianwyr nad ydynt mewn tlodi tanwydd i wella eu heffeithlonrwydd ynni domestig trwy argaeledd grantiau rhannol, wedi'u tapro i amgylchiadau'r aelwyd, a thrwy hynny gyfrannu at ein huchelgeisiau sero net. Gellid dyfarnu cyllid cyfatebol i ddeiliad tŷ sy'n ceisio gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref trwy becyn o fesurau y cytunwyd arno, hyd at uchafswm grant yn dibynnu ar incwm a chynilion yr aelwyd.

Mae tai mewn ardaloedd yng Nghymru yn aml yn gymysgedd o ran mathau, oedrannau a chyflwr tai sy'n gwneud datblygu cynlluniau ardal yn aml yn anodd wrth i chi geisio nodi aelwydydd cymwys o fewn yr ardal. Ystyriodd [adroddiad ar y Rhaglen Cartrefi Clyd](#) a gyhoeddwyd ar 23 Tachwedd 2021 gan Archwilio Cymru yr anawsterau sy'n amlwg wrth ddatblygu prosiectau ar sail ardal yn fwy manwl. Gallai ymestyn cwmipas y Rhaglen Cartrefi Clyd i gynnwys cymorth grant i aelwydydd sy'n gallu gwneud cyfraniad ariannol, waeth pa mor gymedrol ydyw, trwy'r rhaglen Cartrefi Clyd neu gydweithredu â rhaglenni eraill wella cyflawniad a buddion cynlluniau o'r fath yn sylweddol.

Er bod hyn yn cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer sero net ac yn helpu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn dlawd o ran tanwydd, mae cwestiwn ynghylch fforddiadwyedd a'r risg o fuddsoddi yng nghartrefi'r rhai a allai dalu ar draul y rhai na allant. Dylid ystyried unrhyw gymorth ychwanegol ochr yn ochr â gweithredoedd ehangach Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio ein stoc dai, er enghraifft trwy raglen ôl-osod er mwyn optimeiddio estynedig.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Rhaglen Cartrefi Clyd i gynnwys aelwydydd eraill yn y sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat?

Cwestiwn 7 – Os ydw, a oes gennych farn ar sut y gellid ariannu hyn?

Cwestiwn 8 – Os yw aelwydydd eraill wedi'u cynnwys yn y cymhwysra i gael cymorth trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a ddylid blaenoriaethu cefnogaeth, er enghraifft yn gyfyngedig i gartrefi sydd â sgôr EPC is fel sgôr EPC o D neu waeth?

Adran 4 – Cyflawni'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Mesurau effeithlonrwydd ynni cartref

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddull adeiladwaith yn gyntaf⁴ o ôl-osod tai a disgwyliwn i fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd barhau i ariannu gwaith i wella adeiladwaith. Mae hyn yn golygu gwella effeithlonrwydd thermol y cartref cyn gwella'r systemau mecanyddol a thrydanol. Ar hyn o bryd, gall aelwydydd sy'n cwrdd â'r meini prawf cymhwystra gael mynediad at becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim a ddyluniwyd ar gyfer eiddo unigol ac sy'n seiliedig ar asesiad tŷ cyfan, a all gynnwys:

- Inswleiddio
- Systemau gwres canolog o unrhyw fath o danwydd,
- Mesurau gwresogi carbon is fel pypiau gwres ffynhonnell aer, a
- Mesurau arbed dŵr a goleuadau ynni effeithlon.

Dylai mesurau effeithlonrwydd ynni cartref sydd ar gael o dan ein rhaglenni alinio â'n targedau sero net, wrth fod yn gyson â chefnogi aelwydydd incwm isel. Er enghraifft, ni ddylem newid aelwydydd i wres carbon isel heb yn gyntaf wella nodweddion thermol y cartref. Heb lefelau priodol o inswleiddio thermol ac atal drafftiau, gall y pontio i wresogi gofod a dŵr carbon is gynyddu biliau tanwydd aelwyd yn sylweddol.

Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad, ac yn unol â'n cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ein bwriad yw darparu pontio cyfiawn i system wresogi carbon isel, gan leihau ein gorddibyniaeth ar losgi tanwydd ffosil yn y cartref. Er bod ein safbwynt ar gael gwared ar losgi tanwydd ffosil wedi'i hen sefydlu, mae tri rheswm eang o bosibl pam y bydd angen dull trosiannol neu raddol. Disgrifir y rhain isod.

Arloesi

Er mwyn symud tuag at economi carbon sero bydd angen technolegau a gwasanaethau arloesol newydd ar gyfer cynhyrchu, cyflenwi, storio a thalu am ynni a gwres. Gall y datblygiadau arloesol hyn fod ar lefel cartref unigol, ar lefel gymunedol neu efallai ar draws sector; cysylltu tai â thrafnidiaeth, diwydiant ac adeiladau annomestig.

Ni allwn fforddio cloi ein hunain ar un llwybr tra bod cymaint o ymchwil a datblygu ar y gweill. Rhaid inni aros yn ystwyth i ymateb i dechnoleg newydd, ffactorau ehangach y farchnad a lleihau costau posibl i dechnolegau sy'n datblygu a rhai y gellir gwneud defnydd torfol ohonynt.

Ystyrir bod cael Rhaglen Cartrefi Clyd sy'n hyblyg ac yn gallu darparu ar gyfer arloesi mewn technolegau a sut y bydd ynni a gwres yn cael ei gynhyrchu, ei gyflenwi a'i storio a sut y telir amdano, yn hanfodol.

⁴ Nod 3 y cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd 2021/2035 (dolen)

Cydbwysu Tlodi Tanwydd a Gwresogi Carbon Isel

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn argymhell diddymu gwerthiannau boeleri nwy domestig yn raddol erbyn 2033 a boeleri olew domestig erbyn 2028. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried y tensiwn rhwng tlodi tanwydd ac amcanion datgarboneiddio, a bydd gofyn am lwybr clir rhwng nawr a diwedd y 2020au ar gyfer pontio i wresogi carbon isel. Bydd deall yr effaith ar aelwydydd tlawd o ran tanwydd gan gynnwys costau gosod, rhedeg a chynnal a chadw – costau oes gyfan i bob pwrpas – yn allweddol i hyn. Mae hyn yn gofyn am ymchwilio a dysgu ehangach o amgylch yr amser gorau posibl ar gyfer pontio'n llawn i wresogi carbon isel, y mae'n rhaid ei gwblhau mewn modd rheoledig a theg er mwyn lleihau unrhyw ganlyniadau negyddol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

Mae nwy, olew ac mewn rhai achosion glo yn parhau i fod yr opsiynau rhataf i bobl gynhesu eu cartrefi, yn enwedig lle mae adeiladwaith a chyflwr cyffredinol yr adeilad yn wael. Gall amgylchiadau unigolion hefyd olygu nad ydyn nhw eisiau'r ymyrraeth y gallai pwmp gwres a gwelliannau adeiladwaith cysylltiedig ei gwneud yn ofynnol.

Disgwylir i bympiau gwres a systemau gwresogi domestig carbon is eraill chwarae rhan sylweddol. I gyflawni hyn, rydym yn awgrymu y dylai cefnogaeth ar gyfer systemau gwresogi nwy newydd i gartrefi sydd eisoes wedi'u cysylltu â'r grid nwy barhau i fod ar gael yn y tymor byr lle nad yw gwresogi carbon is yn ddewis arall hyfyw ar gyfer aelwydydd incwm is. Mae gwella effeithlonrwydd systemau gwresogi newydd a phresennol i leihau biliau ynni ac allyriadau carbon ymhellach yn flaenoriaeth i'r cartrefi hyn.

Yn yr un modd â'r Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, mae boeleri nwy sydd wedi'u gosod o dan ein Rhaglen Cartrefi Clyd yn dod i ddiwedd eu hoes ddisgwyliedig. [Yn ôl ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y cynllun rhwymedigaeth cwmnïau ynni](#) mae boeleri nwy sydd wedi'u gosod o dan y cynllun yn cael eu disodli ar ôl tua 3 i 8 mlynedd, ymhell cyn diwedd eu hoes ddisgwyliedig o 12 mlynedd. Er y bydd hyn yn cefnogi ymgyrch i gyrraedd sero net, gallai fod yn fwy priodol yn iteriad nesaf y rhaglen Cartrefi Clyd i gymhell atgyweirio systemau gwresogi effeithlon, lle mae'n economaidd gwneud hynny, yn hytrach na darparu boeleri nwy ac olew newydd, gan ganiatáu i berchennog y cartref bontio i wres carbon isel fforddiadwy yn y dyfodol.

Costau a Fforddiadwyedd

Bydd angen hyblygrwydd yn y Rhaglen Cartrefi Clyd i sicrhau nad yw deiliaid tai yn cael eu cloi mewn technolegau gwresogi hen ffasiwn, neu dechnolegau gwresogi carbon is newydd a all arwain at gostau rhedeg gormodol o dan y farchnad ynni domestig gyfredol. Ar hyn o bryd, nwy yw'r tanwydd gwresogi rhataf ar 4c y kWh, tra bod trydan yn 21c y kWh.⁵ Mae cymhwyso costau polisi cymdeithasol neu "ardollau amgylcheddol" yn bennaf ar filiau trydan (25% o'r bil) o'i gymharu â nwy sydd oddeutu 2.5%⁶, yn anghymhelliant i'r pontio i wresogi carbon is. Gall polisi Llywodraeth y DU ynghylch cymhwyso costau cymdeithasol ac amgylcheddol ar filiau ynni domestig newid yn ystod oes iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

⁵ <https://www.ofgem.gov.uk/publications/record-gas-prices-drive-price-cap-ps139-customers-encouraged-contact-supplier-support-and-switch-better-deal-if-possible>

⁶ <https://www.ofgem.gov.uk/publications/infographic-bills-prices-and-profits>

Fel y disgrifir uchod, mae angen deall costau oes gyfan yn llawn. Gall costau cynnal a chadw a gweithredu parhaus gwresogi carbon isel fod yn rhy ddrud i rai aelwydydd, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ddod, neu sydd eisoes, yn dlawd o ran tanwydd, gan ei gwneud yn anodd iddynt ymgysylltu'n weithredol â'r agenda carbon isel heb gymorth ariannol trosiannol gan y Llywodraeth. Bydd arloesi ac effeithlonrwydd yn y gadwyn gyflenwi yn ogystal ag ynni carbon isel mwy fforddiadwy yn gwneud hyn yn fwy hygyrch yn y dyfodol ond bydd hyn yn cymryd amser i'w wireddu.

Er y gellir gwneud gwelliannau o ran adeiladwaith a gwelliannau eraill i'r aelwydydd hyn, gall y costau parhaus olygu eu bod yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan lawn yn y daith sero net.

Cwestiwn 9 – Beth yw'r ffyrdd y gellir helpu aelwydydd incwm isel i wneud iawn am gost biliau ynni uwch yn y tymor byr os yw mesurau gwresogi carbon isel, wrth eu gosod, yn cynyddu biliau?

Tanwyddau a mesurau

Ar hyn o bryd mae'r tanwyddau i redeg systemau gwresogi sydd ar gael o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cynnwys technolegau gwresogi carbon is yn ogystal â systemau tanwydd ffosiliau. Ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r tanwyddau y gellid eu darparu o dan y rhaglen.

Efallai y bydd mesurau ychwanegol y dylid eu hystyried wrth ddylunio iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Er enghraifft, fel rheol ni ddarperir ffenestri a drysau newydd ac atgyweiriadau to o dan y Rhaglen Cartrefi Clyd cyfredol. Mae tua 25% o'r gwres yn dianc trwy do'r cartref pan fydd mewn cyflwr da. Mae tua 10% o wres y cartref yn dianc trwy ffenestri ond mae 15% arall yn dianc oherwydd drafftiau a grëwyd o ddrysau a ffenestri sydd mewn cyflwr gwael neu sydd wedi'u gosod yn wael. Gallai newid ffenestri gwydr sengl i unedau gwydr dwbl sicrhau arbedion o tua £85 y flwyddyn ar fil tanwydd domestig.

Er y gallai drysau a ffenestri newydd ac atgyweirio toeau gael eu hargymell trwy asesiad tŷ cyfan, maent yn gymharol ddrud o'u hystyried yn erbyn y gwelliant effeithlonrwydd thermol a geir.

Nodir y tanwyddau a'r mesurau y gellid eu cynnwys yn iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn nhabl 1 isod.

Cwestiwn 10 – A ddylid cynnwys neu eithrio'r canlynol yn iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, gan ystyried arbedion carbon, tlodi tanwydd, materion ansawdd aer lleol a pharodrwydd y farchnad?

Tabl 1 Mesurau effeithlonrwydd ynni cartref – tanwydd a mesurau

Adeiladwaith yn gyntaf	Ie/Na	Rhowch fanylion unrhyw amgylchiadau penodol?	Tystiolaeth i gefnogi'ch safiad
Inswleiddio Wal Geudod			
Inswleiddio Llofft			
Inswleiddio atodol			
Inswleiddio Wal Allanol			
Ffenestri newydd			
Drysau newydd			
Gwydr Eilaidd ac atal drafftiau			

Systemau gwresogi – Tanwyddau	Ie/Na	Rhowch fanylion unrhyw amgylchiadau penodol?	Tystiolaeth i gefnogi'ch safiad
Nwy Naturiol			
Nwy Hylifol			
Nwy Bio			
Biomass			
Olew Gwresogi			
Hydrogen			
Trydan			
Arall			

Mesurau Eraill	Ie/Na	Rhowch fanylion unrhyw amgylchiadau penodol?	Tystiolaeth i gefnogi'ch safiad
Storfeydd Batri PV Solar			
PV Thermol			
Storfeydd Thermol / Gwres			
Gwres / Ynni fel gwasanaeth			
Systemau yn y gymuned – Rhwydweithiau gwres			
Awyru ag Adfer Gwres			
Goleuadau Ynni Isel			
Mesurau Arbed Dŵr			
Arall			

Cyfle Cyllido

Mae gan fuddiolwyr y Rhaglen Cartrefi Clyd cyfredol hawl i un cais sy'n destun cap ariannol. Ar gyfer cartrefi sydd â sgôr EPC Band E, yr uchafswm grant sydd ar gael yw £5,000 os yw o fewn 30m i brif gyflenwad nwy, tra mai £8,000 yw'r lefel uchaf o fuddsoddiad lle nad oes prif gyflenwad nwy ar gael. Ar gyfer cartrefi sydd â Gradd EPC Band F neu G, mae'r buddsoddiad wedi'i gyfyngu i £8,000 ar gyfer cartrefi ar y grid nwy a £12,000 ar gyfer cartrefi oddi ar y grid nwy.

Mae profiad o'r rhaglen bresennol wedi dangos na all y cyllid sydd ar gael fod yn ddigonol weithiau i gyflawni'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni sydd eu hangen i godi'r aelwyd allan o dlodi tanwydd, neu leihau'r allyriadau carbon i'r lefel sydd ei hangen i gyflawni ein huchelgeisiau sero net. Mae cael un cais weithiau'n golygu ôl-osod rhannol yn unig ar gyfer rhai eiddo.

Ni fyddai un ôl-osod dwfn yn gyson â dull ôl-osod er mwyn optimeiddio, yn enwedig lle mae cryn arloesi mewn technoleg a chostau. Er enghraifft, pan fo'r mesurau trefnus ac ategol addas, sy'n briodol i'r eiddo a'i lwybr datgarboneiddio, yn rhai edifeirwch isel ac yn lliniaru'r risg o ganlyniadau anfwriadol, gallai ymyriadau lluosog dros amser wneud synnwyr. Rhaid cydbwyso'r mesurau priodol, a chyfradd gosod y mesurau hynny, yn erbyn cefndir datgarboneiddio grid a chostau gosod a rhedeg technoleg carbon isel.

Ystyriaeth bellach yw faint o aelwydydd y gellir eu cefnogi gyda chyllideb gyfyngedig, ac a yw'n well cwblhau gwaith dyfnach, drutach ar nifer llai o eiddo neu a ddylid cefnogi nifer fwy o ddeiliaid tai gyda chefnogaeth fwy cynyddrannol a chymedrol.

Cwestiwn 11 – Beth yw eich barn ar barhau â chap ariannol fesul aelwyd, gan nodi y bydd cap is yn caniatáu i fwy o aelwydydd gael cefnogaeth ond o werth is?

Cwestiwn 12 – A oes gennych farn ar ganiatáu ceisiadau lluosog i bob aelwyd dros gyfnod o bump neu ddeng mlynedd?

Targedau Perfformiad Ynni

Y fethodoleg gyfrifo sy'n sail i Dystysgrifau Perfformiad Ynni yw'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) ar gyfer cartrefi newydd, a SAP gostyngol (RdSAP) ar gyfer cartrefi sy'n bodoli eisoes. Mae hwn yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd i ystyried ymchwil newydd, technoleg newydd a hefyd datgarboneiddio'r grid cenedlaethol.

Fel y trafodwyd yn adran 1, bydd gwelliannau effeithlonrwydd ynni a orfodir ar y sector rhentu preifat gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi ar gyfer tenantiaethau newydd wireddu sgôr EPC Band C neu well erbyn 2025, ac erbyn 2028 ar gyfer tenantiaethau presennol. Y targedau a gynigir ar gyfer iteriad nesaf y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yw:

- Rhaid gwella cartrefi EPC Band F neu G sy'n cael eu trin i Fand D o leiaf
- Rhaid gwella cartrefi EPC Band D neu E sy'n cael eu trin i Fand C o leiaf

Yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, gwnaethom gynnig y dylai cynlluniau yn y dyfodol sydd wedi'u cynllunio i wella effeithlonrwydd ynni cartref sicrhau gostyngiad o 21%⁷, a dim llai na 15%⁸ yn yr ynni a ddefnyddir ar gyfer gwresogi. Amlygodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad wendidau o ran EPC a kWh i fesur y gwelliant mewn effeithlonrwydd ynni cartref a gyflawnir pan osodir mesurau.

Er bod gwendidau yn y ddau ddull mesur, gall absenoldeb data cywir a gorddibyniaeth ar ganlyniadau wedi'u modelu arwain at ganlyniadau camarweiniol sy'n tansilio hygyrdd adroddiadau o ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Roedd canlyniad yr ymgynghoriad ar ein cynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn amhendant, gyda dadleuon rhesymol wedi'u cyflwyno o blaid y ddau ddull.

O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio'r ddau fetrig ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd. Y bwriad fyddai parhau i adolygu eu defnydd ond gellid gosod y lefelau gofynnol cychwynol ar:

- Gwella cartrefi EPC Band F neu G i Fand D o leiaf,
- Gwella cartrefi D neu E sy'n cael eu gwella i Fand C o leiaf ac

⁷ <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/Net-Zero-Technical-report-CCC.pdf> - page 79

⁸ Seiliedig ar argymhelliad adroddiad UKCCC *Homes Fit for the Future?* Cyhoeddwyd Chwefror 2019 dolen?

- Anelu at sicrhau gostyngiad o 21%⁹, a dim llai na 15%¹⁰ yn yr ynni a ddefnyddir ar gyfer gwresogi.

Cwestiwn 13 – Beth yw eich barn ar y fethodoleg a'r targedau ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd?

Gwasanaethau cynghori

Mae effaith tlodi tanwydd yn bellgyrhaeddol ac yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol. Mae dull cydgysylltiedig, partneriaeth o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn hanfodol.

Ar hyn o bryd, darperir cyngor effeithlonrwydd ynni cartref yng Nghymru i bob aelwyd trwy'r cynllun Nyth. O dan y trefniant hwn, mae'r gwasanaeth cyngor ynni cartref yn asesu cymhwysra pobl ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hefyd yn cyfeirio pobl at gyngor a chefnogaeth bellach gan bartneriaid dibynadwy eraill ar hawliau budd-daliadau (i gynyddu incwm aelwydydd) a chynghor ar sut i newid cyflenwyr ynni i sicrhau bargaen well o'r farchnad ynni domestig masnachol gan ddefnyddio gwasanaeth U switch achrededig Llywodraeth y DU.

Anogodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd yn [ei ymchwiliad i dlodi tanwydd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020](#) Lywodraeth Cymru i wella ac ehangu ymgysylltiad partneriaeth yn yr agenda ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Credai'r Pwyllgor fod achos cryf dros wasanaeth cyngor a chymorth yn y cartref ar gyfer aelwydydd bregus sy'n debygol o brofi rhwystrau i gael mynediad at gymorth. Fe wnaethant awgrymu y dylai'r gwasanaeth hwn fod yn siop un stop, gan ddarparu cymorth uniongyrchol, er enghraifft, wrth hawlio hawliau ariannol a newid cyflenwyr ynni.

Ym mis Ionawr 2021, cychwynnodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot i asesu'r buddion posibl y gall y dull hwn eu darparu i'r llywodraeth, y sector cyhoeddus ac aelwydydd. Mae'r peilot wedi'i dargedu at aelwydydd a deiliaid tai bregus a allai fod wedi ymddieithrio o'r farchnad ynni masnachol. Disgwylir yr adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2022.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwella ei gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni cartref trwy'r wefan [cyngor ynni syml](#). Mae'r gwasanaeth hwn bellach yn cynnwys llinell gymorth sy'n cynnig cyngor ar ystod o faterion yn ymwneud ag arbed arian ar filiau ynni aelwyd, buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a materion cysylltiedig fel mesuryddion craff.

Wrth ddylunio'r trefniadau cyflenwi ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, gydag adroddiad allbwn peilot y gwasanaethau cyngor a ddisgwylir ym mis Ebrill 2022 yn llywio, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried buddion gwasanaeth cyngor a chymorth effeithlonrwydd ynni cartref. Gallai hyn fod yn annibynnol ar yr asiant neu asiantau a benodwyd i weinyddu a/neu ddylunio a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni tai, a gallai gael ei integreiddio i mewn i 'siop un stop' ehangach.

⁹ <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/Net-Zero-Technical-report-CCC.pdf> - page 79

¹⁰ Seiliedig ar argymhelliad adroddiad UKCCC *Homes Fit for the Future?* Cyhoeddwyd Chwefror 2019

Cwestiwn 14 – A ddylai iteriad nesaf y gwasanaethau cyngor ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni domestig yn unig?

Cwestiwn 15 – Os na, sut y gallai gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru gael eu hintegreiddio â gwasanaethau cyngor eraill sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r incwm mwyaf posibl a mynd i'r afael â thlodi?

Cwestiwn 16 – Rhannwch eich barn ar ddarparu gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni ac a ddylai'r rhain fod yn annibynnol ar sefydliadau a benodwyd i gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref i ddeiliaid tai?

Sicrhau Ansawdd

Mae (PAS) 2035:2019 yn cynnig fframwaith o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer cymhwyso mesurau ôl-osod ynni i adeiladau presennol yn y DU ac yn darparu arfer gorau ar gyfer eu gweithredu. Mae'n ceisio rheoli risgiau ôl-osod trwy sicrhau bod asesiad trylwyr yn cael ei gynnal i sefydlu addasrwydd unrhyw welliannau sydd i'w gosod. Mae PAS yn annog agwedd gyfannol tuag at ôl-osod, un sy'n ystyried yr adeilad fel system o elfennau, rhyngwynebau a deiliaid sy'n rhyngweithio â'i gilydd.

PAS 2035 yw'r ddogfen drosfwaol yn y fframwaith safonau ôl-osod, y bydd yn ofynnol i ddeiliaid y Marc Ansawdd gydymffurfio â hi wrth wneud gwaith ôl-osod domestig. Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd cyfredol yn gweithio i'r safonau yn PAS 2030 (2017) ac wedi mabwysiadu rhai o'r dulliau egwyddorol yn PAS 2035.

Disgwylir y dylai gosod mesurau effeithlonrwydd ynni cartref dynnu ar arfer gorau'r diwydiant o ran ansawdd gosod, esblygu safonau ôl-osod, yn ogystal â dysgu a bod yn gyson â'n Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Cwestiwn 17 – Pa safonau y dylid eu defnyddio ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni?

Adran 5: Sgiliau a thwf gwyrdd

Dylai buddsoddiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a chefnogi ein targedau sero net carbon hefyd fod yn ysgogiad cyllidol sylweddol i gefnogi symudiad gwyrdd ymhlith cadwyni cyflenwi busnesau bach a chanolig Cymru. Gall hyn helpu i dyfu gallu a datblygu sylfaen sgiliau newydd. Dylai'r buddsoddiad sylweddol a ddarperir trwy ein Rhaglen Cartrefi Clyd gefnogi ein dyhead i brynu deunyddiau adeiladu mwy cynaliadwy, lleol i wella cystadleuaeth, cefnogi'r economi sylfaenol, lleihau'r ôl troed carbon sectoraidd a byrhau'r llinellau cyflenwi.

Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau sgiliau ledled Cymru. Byddant yn gweithio gyda chyflogwyr dros yr ychydig fisoedd nesaf i gasglu gwybodaeth i lywio datblygiad eu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau tair blynedd newydd, a gyhoeddir yn 2022.

Bydd eu gwaith yn ymddangos mewn dogfennau polisi allweddol fel y Cynllun Prentisiaeth, y Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd a Sero Net Cymru ac mae'r wybodaeth a'r argymhellion

a ddarperir ganddynt gan gyflogwyr yn allweddol i lywio'r defnydd o gyllid sgiliau Llywodraeth Cymru.

Trwy weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, colegau a busnes yng Nghymru, gellir creu swyddi gwyrdd a chyfleoedd hyfforddi newydd sylweddol ar ôl-osod. Dylai rhaglenni ganolbwyntio ar uwchsgilio pobl sydd eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ôl-osod cyfredol, yn ogystal â denu newydd-ddyfodiaid i'r maes sgiliau gwyrdd. Bydd caffael y sgiliau hyn yn cyflymu datgarboneiddio cartrefi, trwy ddarparu gweithlu sgiliau gwyrdd cymwys i Gymru. Bydd angen i'r gweithlu hwn feddu ar y sgiliau a'r profiad i ôl-osod pob deiliadaeth tai a hynny'n cefnogi gwelliannau ar raddfa eang yn safon cartrefi yng Nghymru.

Y bwriad fyddai gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau bod cynllun gweithredu sgiliau ar waith sy'n adlewyrchu ein hanghenion tymor hir ar gyfer sgiliau adeiladu newydd ac ôl-osod a'n bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau o ansawdd uchel.

Cwetiwn 18 – Sut gall y Rhaglen Cartrefi Clyd gefnogi datblygiad sgiliau a swyddi yn y sectorau carbon isel ac ail-osod tai yn well?

Adran 6: Deddfwriaeth

Mae Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011, wedi gosod y trefniadau ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd. Gwneir y rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru o dan adran 15 (1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990. Mae'r Prif Reoliadau a wnaed yn 2011 yn darparu ar gyfer defnyddio'r meini prawf i ddiffinio unigolion sy'n gymwys i gael cymorth o dan y cynllun (rheoliad 5), y dibenion y caniateir cymeradwyo grant ar eu cyfer (rheoliad 6), uchafswm y grant (rheoliad 7), gwybodaeth sydd i'w darparu mewn cais am grant (rheoliad 8) a'r amodau sydd ynghlwm wrth y grant (rheoliad 9). Bydd angen diwygio'r rheoliadau hyn i ystyried newidiadau sydd i'w gwneud i iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Fodd bynnag, byddai fframwaith deddfwriaethol llai rhagnodol yn caniatáu i'r rhaglen fod yn fwy ymatebol i amodau newidiol y farchnad ac arloesedd. Fel arall, gellid diddymu'r Rheoliadau cyfredol sy'n sail i'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn eu cyfanrwydd, gydag iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei ddarparu fel rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fel y [Gronfa Cymorth Dewisol](#) neu'r [Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio](#). Wrth wneud hynny, byddai'n haws darparu ar gyfer mwy o hyblygrwydd i ymateb i faterion/newidiadau masnachol a chyflenwyr sy'n dod i'r amlwg. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r rhaglen fod yn fwy ymatebol i'r pwysau sy'n dod i'r amlwg ar gostau byw fel y gwelsom yn ystod y pandemig a'r argyfwng ynni cartrefi presennol. Yn yr un modd ag unrhyw un o bolisiau neu arferion Gweinidogion Cymru, byddai rhaglen ddewisol yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ofynion ymgysylltu ac ymgynghori sy'n llywodraethu gweithgareddau Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cwestiwn 19 – A ydych chi'n credu bod angen nodi'r Rhaglen Cartrefi Clyd mewn Rheoliadau manwl, neu a ellir ei chefnogi'n syml gan ganllawiau cynllun a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru?

Camau nesaf

Cyhoeddir ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwn wyth wythnos ar ôl y dyddiad cau. Bydd ymateb y Llywodraeth yn nodi sut yr ydym yn bwriadu gweithredu iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Y disgwyl yw y bydd iteriad nesaf y rhaglen yn cychwyn yng ngwanwyn 2023.

Crynodeb o gwestiynau ymgynghori

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gydbwysu'r angen i leddfu tlodi tanwydd a chreu cenedl sy'n gyfiawn yn gymdeithasol â'r angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, neu a ddylai un o'r amcanion hyn gael blaenoriaeth yn y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd?

Cwestiwn 2 – Beth yw'r bwlch yn y ddarpariaeth y credwch y dylai'r Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf ei lenwi er mwyn sicrhau mwy o fudd i Gymru?

Cwestiwn 3 – Yn 'Cartrefi addas ar gyfer y dyfodol, yr her ôl-osod', amcangyfrifodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fuddsoddiad o £14.75bn dros y degawd nesaf i ddileu tlodi tanwydd a chwrdd â'n huchelgeisiau sero net. Pa awgrymiadau sydd gennych chi o ble y dylai'r cyllid ar gyfer y lefel hon o fuddsoddiad ddod?

Cwestiwn 4 – Pwy ydych chi'n meddwl dylai fod yn brif ffocws y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf?

Cwestiwn 5 – Ar ba lefel y dylid gosod trothwy(on) incwm a chynilion aelwydydd, y byddai aelwydydd drosto/drostynt yn cael eu heithrio rhag mesurau effeithlonrwydd ynni cartref a gyflenwir heb unrhyw gost i ddeiliad y tŷ?

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Rhaglen Cartrefi Clyd i gynnwys aelwydydd eraill yn y sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat?

Cwestiwn 7 – Os ydw, a oes gennych farn ar sut y gellid ariannu hyn?

Cwestiwn 8 – Os yw aelwydydd eraill wedi'u cynnwys yn y cymhwysra i gael cymorth trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a ddylid blaenoriaethu cefnogaeth, er enghraifft yn gyfyngedig i gartrefi sydd â sgôr EPC is fel sgôr EPC o D neu waeth?

Cwestiwn 9 – Beth yw'r ffyrdd y gellir helpu aelwydydd incwm isel i wneud iawn am gost biliau ynni uwch yn y tymor byr os yw mesurau gwresogi carbon isel, wrth eu gosod, yn cynyddu biliau?

Cwestiwn 10 – A ddylid cynnwys neu eithrio'r canlynol yn iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, gan ystyried arbedion carbon, tlodi tanwydd, materion ansawdd aer lleol a pharodrwydd y farchnad?

Cwestiwn 11 – Beth yw eich barn ar barhau â chap ariannol fesul aelwyd, gan nodi y bydd cap is yn caniatáu i fwy o aelwydydd gael cefnogaeth ond o werth is?

Cwestiwn 12 – A oes gennych farn ar ganiatáu ceisiadau lluosog i bob aelwyd dros gyfnod o bump neu ddeng mlynedd?

Cwestiwn 13 – Beth yw eich barn ar y fethodoleg a'r targedau ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd?

Cwestiwn 14 – A ddylai iteriad nesaf y gwasanaethau cyngor ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni domestig yn unig?

Cwestiwn 15 – Os na, sut y gallai gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru gael eu hintegreiddio â gwasanaethau cyngor eraill sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r incwm mwyaf posibl a mynd i'r afael â thlodi?

Cwestiwn 16 – Rhannwch eich barn ar ddarparu gwasanaethau cyngor effeithlonrwydd ynni ac a ddylai'r rhain fod yn annibynnol ar sefydliadau a benodwyd i gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref i ddeiliaid tai?

Cwestiwn 17 – Pa safonau y dylid eu defnyddio ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni?

Cwestiwn 18 – Sut gall y Rhaglen Cartrefi Clyd gefnogi datblygiad sgiliau a swyddi yn y sectorau carbon isel ac ail-osod tai yn well?

Cwestiwn 19 – A ydych chi'n credu bod angen nodi'r Rhaglen Cartrefi Clyd mewn Rheoliadau manwl, neu a ellir ei chefnogi'n syml gan ganllawiau cynllun a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru?

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad: